FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

o'r unfed cyfarfod ar hugain a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 7 Gorffennaf 2006

31/06 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

CADEIRYDD	YSGRIFENYDDES
Clive Menzies	Emma Haldane
AELODAU	**ERAILL NAD YDYNT YN AELODAU**
Sue Gittins	Martin Howorth
John Marchant	Alun Price (CCGC)
Gerald Moss	John Pugh
Margaret Murphy	
Mabyn Pickering	Pete Bland (Eitem 43/06)
Shelagh Roberts	
Tim Stevens	
Edward Wardle	

Ymddiheuriadau: Ieuan Lewis, Tim Rosselli, Gwynfor Jones, Karl Prakel, John Cooper-Poole, Mavis McBride, Mike Crawshaw

32/06 Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 5 Mai 2006

Dosbarthwyd cofnodion drafft o gyfarfod 5 Mai 2006 i aelodau.

Gwnaethpwyd rhai newidiadau bach a chadarnhawyd y cofnodion ar 14 Mehefin 2006.

(26/06) Ceisiadau cynllunio

Nid oedd y Prif Swyddog Cynllunio wedi ymateb hyd yma.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i archwilio'r mater

(27/06) Gorchmynion Addasu'r Map Swyddogol

Derbyniwyd llythyr gan Brif Swyddog yr Amgylchedd. Nid oedd yr aelodau yn fodlon â'r ymateb.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i ysgrifennu at Brif Swyddog yr Amgylchedd yn gofyn pa gamau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wella'r gwasanaeth.

(39/05) Ymweliad ag Ystad Wynnstay

Aeth aelodau i ymweld â'r ystad ar fore 7 Gorffennaf 2006.

Ar ran y Fforwm, diolchodd yr aelod Sue Gittins i'r ysgrifenyddes am drefnu'r daith faes ar gyfer yr aelodau.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i ysgrifennu at gapten Bell, o Ystad Wynnstay i fynegi gwerthfawrogiad y fforwm am yr amser a roddodd iddynt ar y diwrnod.

33/06 Adroddiad y Cadeirydd

Ni chafwyd adroddiad ar yr achlysur hwn.

34/06 Adroddiad yr Ysgrifenyddes

- Dosbarthwyd y 'Newyddlen Adloniant a Mynediad' ddiweddaraf i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod.

35//06 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Cyflwynodd Martin Howorth, Rheolwr Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ei adroddiad diweddaraf am gynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Adroddodd fod yr adroddiad asesu wedi'i gwblhau erbyn hyn a bod sylwadau'n cael eu cymryd am flaenoriaethau yn y cyfnod asesu.

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar ddiwedd Awst a chaiff y sylwadau am y blaenoriaethau eu hasesu i weld a oes angen eu newid. Yna ym mis Medi, cyflwynir adroddiad i Banel Archwilio'r Cyngor i gael eu barn. Ar ôl dod i gytundeb, y cyfnod nesaf fydd y Cynllun Gweithredu.

Gofynnodd i aelodau sut yr hoffent fod yn gysylltiedig yng nghyfnod y Cynllun Gweithredu a pha fewnbwn yr hoffai'r fforwm ei roi.

Cytunodd Sue Gittins y dylai'r fforwm fod yn gysylltiedig naill ai i gyd neu fel rhan o is-bwyllgor.

Roedd Tim Stevens yn pryderu am adnoddau'r Cyngor. Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r fforwm ddefnyddio'r cyfle hwn i roi mewnbwn pellach yn y cyfnod hwn a dylanwadu ar gyfanswm yr adnoddau a fyddai'n mynd i mewn iddo.

Nododd Martin Howorth mai dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor gael dogfen strategol yn Wrecsam ar gyfer HT a byddai mewnbwn y fforwm yn cael ei werthfawrogi. Awgrymodd y dylid trefnu cyfarfod ar ddechrau mis Medi i drafod camau nesaf y cynllun gweithredu.

Teimlai Tim Stevens y dylid ymgynghori ag ymwelwyr yr ardal.

Canmolodd y Cadeirydd gyflwyniad y ddogfen a gynhyrchwyd.

36/06 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

Cyflwynodd John Marchant adroddiad wedi'i baratoi gan y Ceidwaid Mynediad, Sion Roberts ac Alison Whitley, am waith a gwblhawyd yn y sir dros y misoedd diwethaf.

- Adroddodd Sion nad oedd unrhyw broblemau wedi bod â cherddwyr mewn perthynas â Mynediad Agored ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gyfyngiadau neu waharddiadau.

- Cwblhawyd gwaith torri gwair ar oddeutu 60 o lwybrau troed a llwybrau ceffyl yn ddiweddar ledled y sir. Caiff y llwybrau eu torri eto ym mis Awst fel rhan o'r rhaglen torri gwair flynyddol.

- Cafwyd nifer yn bresennol ar daith gerdded Dyffryn Ceiriog a gynhaliwyd ddydd Sul, 11 Mehefin. Bydd Sion yn arwain taith gerdded arall o amgylch Melin y Nant a Bronwylfa ym mis Hydref. Ceir manylion yng nghanllaw Digwyddiadau Gwasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam.

- Ar hyn o bryd, mae Sion yn gweithio ar faterion cynnal a chadw ac ynghyd â Dave ac Alison, mae'n paratoi rhestr o 50 o arwyddbyst i'w codi ar lwybrau amrywiol yn y sir yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

- Roedd Alison wedi bod yng nghyfarfodydd Cynghorau Cymunedol Brymbo a Bangor Is-coed i drafod prosiectau llwybrau troed yn yr ardaloedd hyn. Roedd Brymbo yn awyddus i'w cynnal ond roedd Bangor Is-coed ychydig yn betrusgar. Mae Bwlchgwyn eisoes wedi cynhyrchu arolwg a rhestr o faterion cynnal a chadw. Mae hwn wedi'i oedi nes bo gweddill Cymuned Brymbo wedi cwblhau ei arolwg.

- Aethpwyd i fore coffi treftadaeth yng Nghefn Mawr i drafod prosiect llwybr troed yn yr ardal ar y cyd â'r llwybr treftadaeth a'r cyswllt trefol. Ni chafwyd unrhyw atborth hyd yma.

- Mae Alison wedi bod yn canolbwyntio ar faterion cnydio o amgylch y sir gan roi blaenoriaeth i lwybrau a hyrwyddir ac ardaloedd prosiectau llwybrau troed. Mae nifer o dirfeddianwyr eisoes wedi cael llythyrau ynglŷn â chlirio cnydau ar draws llwybrau troed ac roedd un rhybudd wedi'i anfon.

- Mae Alison wedi cysylltu â gwasanaethau Groundwork ynghylch y gwaith gwella ar Lwybr Cerdded y We 6 (Rhos) llwybr cerdded cylchol ac mae Hawliau Tramwy yn gobeithio y bydd 'Y Daith Gerdded Fawr' a fydd yn 8, 12 neu 15 milltir o amgylch Y Mwynglawdd, Esclusham a Mynydd Rhiwabon ar waith yn ystod y misoedd nesaf.

- Roedd pob un o'r tri cheidwad yn gysylltiedig ag Wythnos Gerdded Wrecsam ym mis Mai.

- Mae grŵp o'r Waun wedi holi ynghylch 'diwrnod tasgau' yn Nyffryn Ceiriog ym mis Medi, a fydd yn cynnwys preswylwyr lleol a staff Cadbury. Nid yw'r manylion wedi'u cadarnhau hyd yma.

- Mae Alison wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Prawf i ddarparu tasg ar gyfer grŵp Gwasanaeth Cymunedol i'w gyflawni bob dydd Sul. Roedd y dasg yn cynnwys torri llystyfiant ar lwybr ceffyl Y Bers. Rhoddir tasg newydd ym mis Medi/Hydref.

  Mewn ymateb i gwestiwn Edward Wardle am p'un a oedd y Cyngor yn rhoi gwaith di-dâl i bobl ar orchmynion cymunedol, dywedodd John Marchant fod hwn yn gyfnod arbrofol ar gyfer gwaith prosiect clirio sylfaenol. Esboniodd fod y cynnydd yn tueddu i fod yn araf ond bod budd i'w weld.
  Dywedodd Martin Howorth fod y math hwn o help yn cael ei ddefnyddio yn y parciau gwledig hefyd a'i fod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Holodd Tim Stevens a ddarparwyd yswiriant ar gyfer y gweithwyr. Esboniodd Martin Howorth fod gan y gweithwyr eu hyswiriant eu hunain.
  Gofynnodd Mabyn Pickering pa fath o yswiriant oedd yn cael ei ddarparu ac o le'r oedd yn dod. Credai Edward Wardle ei fod yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Prawf, ond byddai'n gwneud ymholiadau ei hun.

  CYTUNWYD: Roedd yr aelodau am gael eglurhad o'r sicrwydd yswiriant.
  CAM GWEITHREDU: Ysgrifennydd i ysgrifennu at Brif Swyddog yr Amgylchedd am eglurhad.

  Gofynnodd y Cadeirydd p'un a oedd codi arwyddion i nodi pen taith y llwybrau troed yn bolisi gan y Cyngor bellach. Nododd John Marchant y cytunwyd y dylid gosod yr arwyddion hyn yn yr Adolygiad Gwerth Gorau yn 2002, er hynny dywedodd fod y gwaith yn cymryd llawer o amser.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiolch i'r Ceidwaid Mynediad am eu holl waith caled.

37/06 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Dywedodd Alun Price o CCGC mai 'Mynediad Arfordirol' oedd y brif eitem mewn cyfarfodydd fforwm eraill bellach.
Gofynnodd y Cadeirydd p'un a oedd Mynediad Arfordirol yn cael ei ymestyn i ddyfrffyrdd a llynnoedd mewndirol. Cadarnhaodd Alun Price fod y Cynulliad yn edrych ar wella mynediad arfordirol yn unig ar hyn o bryd.

Derbyniwyd 'Asesiad Ffyrdd Wrecsam' a byddai sylwadau'n cael eu rhoi faes o law ar ôl derbyn asesiadau o siroedd cyfagos.
Adroddodd na chafwyd unrhyw waharddiadau na chyfyngiadau mewn perthynas â Mynediad Agored.

Cyfeiriodd Sue Gittins at y cyhoeddiad 'Rheoli Mynediad Cyhoeddus' a gofynnodd a fyddai modd darparu copi i'r aelodau. Cadarnhaodd Alun Price y byddai copïau'n cael eu rhoi i'r aelodau ar gais.

38/06 Materion cyllidebol

Roedd Sue Gittins am i'r fforwm gael mynediad at gynlluniau cyllidebol er mwyn gweld faint o arian oedd yn cael ei ddyrannu i HT, costau staff a gwaith tir.

Cadarnhaodd Martin Howorth fod £69,432 wedi'i ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw yn y flwyddyn bresennol a £184,971 ar gostau staff.
Fel pwyllgor statudol yr awdurdod, credai Sue Gittins y dylai'r fforwm gael rhywfaint o ddweud ar sut y dyrennir arian. Dywedodd Martin Howorth fod croeso i'r fforwm fynegi eu pryderon i'r awdurdod a bod y broses gyllidebol ar fin dechrau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nododd fod y Cynghorwyr yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch lle y dyrennir yr arian. Credai'r Cadeirydd y gallai fod yn ddefnyddiol gwahodd y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor i'r cyfarfod nesaf i gael trafodaeth am faterion cyllidebol sy'n effeithio ar y maes pwysig hwn a'u galluogi i esbonio'r pwysau a'r ystyriaethau sydd ganddynt i'w cydbwyso. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r fforwm roi atborth iddynt am eu pryderon.
CYTUNWYD: Gwahodd y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor i'r cyfarfod nesaf.
CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i wahodd

39/06 Hyfforddiant i Aelodau

Roedd y Cadeirydd yn pryderu nad oedd aelodau newydd yn cael hyfforddiant am wybodaeth sylfaenol i'w helpu i ymdrin â'r jargon a siaredir mewn cyfarfodydd y fforwm. Gofynnodd i aelodau a oeddent yn teimlo y byddai o fantais iddynt gael hyfforddiant ymsefydlu, yn esbonio prif egwyddorion cyfraith llwybrau troed a sut mae'r fforwm yn gweithio, yn fanteisiol iddynt.
Awgrymodd Sue Gittins y gallai pecyn i aelodau fod yn ddefnyddiol ond cytunodd hefyd y byddai hyfforddiant wyneb yn wyneb yn nodi cyfrifoldebau'r fforwm o ddiddordeb.
Cadarnhaodd Alun Price nad oedd CCGC yn trefnu unrhyw hyfforddiant ymsefydlu a theimlai y dylai fforymau fod yn hyfforddi eu hunain.
Teimlai Tim Stevens fod fforymau'n rhy fach i hyfforddi eu hunain ac awgrymodd y dylai FfMLlW gysylltu â fforymau eraill yn yr ardal i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu sesiynau hyfforddi rhyngddynt.

Awgrymodd John Marchant y dylid cysylltu â Sir y Fflint a Sir Ddinbych i ddechrau. Cytunodd yr aelodau.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i ysgrifennu at FfMC i gael gwybodaeth bellach am hyfforddiant.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i gysylltu â Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

40/06 Cydbwysedd y Fforwm

Gofynnwyd i aelodau a oeddent yn hapus â chydbwysedd presennol y fforwm.
Teimlai'r Cadeirydd fod diffyg arbenigedd yn y maes beicio, ond teimlai fod y cydbwysedd presennol yn iawn.
Datganodd John Marchant fod y Cyngor yn hapus â'r cydbwysedd presennol, ond byddai hyn yn cael ei fonitro a'i addasu yn y dyfodol pe bai angen.
Teimlai Tim Stevens nad oedd ieuenctid yn cael llais ar hyn o bryd.
Cytunodd yr aelodau y dylai pobl ifanc gael llais mewn prosesau yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i ysgrifennu at Bennaeth Cynhwysiad Pobl Ifanc y Cyngor er mwyn trefnu cyfarfod â phobl ifanc yn y dyfodol.

41/06 Asesiadau Mynediad i'r Anabl yn y Rhwydwaith HTC

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd polisi'r Cyngor mewn perthynas â mynediad i'r anabl a sicrhau bod eu hanghenion yn cael ei diwallu. Datganodd John Marchant fod y cyngor yn cyfrannu tuag at ddarparu mynediad rhwyddach i'r anabl a derbyniodd grant hefyd gan CCGC. Esboniodd y byddai'r Cyngor yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu hyn ar eu cyfer pe bai digon o le ar gael i roi mynediad i gadeiriau olwyn. Roedd y Cyngor yn cadw at y polisi 'Blwch - Giât - Camfa' lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae giatiau mochyn yn costio mwy i'w gosod na chamfeydd ond rhoddir ystyriaeth i le mae llwybrau mewn perthynas ag aneddiadau ac mae'r cyngor yn gweithredu'n unol â hynny.

Awgrymodd Tim Stevens y gellid cynnwys yr eitem yn hyfforddiant y fforwm i gael ymdeimlad o'r pethau eraill sy'n effeithio ar bobl anabl yng nghefn gwlad a chael barn. Byddai'n well gan bobl weld ychydig o ddarpariaeth na dim o gwbl, yn hytrach na cheisio gwneud popeth ar unwaith.
Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r fforwm fonitro mynediad i'r anabl ac edrych ar yr eitem eto mewn 12 mis.

42/06 Parcio mewn cilfannau

Teimlai Tim Stevens fod prinder cilfannau yng nghefn gwlad. Credai'r Cadeirydd fod rhywfaint o bryderon ynghylch parcio mewn mannau pasio yn Nyffryn Ceiriog. Roedd gan Shelagh Roberts a Gerald Moss bryderon hefyd.
Gan nad oedd Mike Crawshaw yn bresennol yn y cyfarfod a'i fod wedi gofyn am roi'r eitem ar yr agenda, cytunodd aelodau y dylid trafod yr eitem yn y cyfarfod nesaf.

43/06 Unrhyw faterion eraill

- **Cerbydau modur yng nghefn gwlad**
  Gofynnodd Tim Stevens i aelodau edrych ar y Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC) a gofynnodd i aelodau a oeddent yn dymuno trafod y mater yn fwy manwl fel eitem i'r roi ar agenda'r dyfodol, gan ei fod yn ddarn eithaf hir. Pan fabwysiedir y Ddeddf yng Nghymru,

argymhellodd ef y dylai'r awdurdod gymryd copi o'r map swyddogol a chopi o'r rhestr strydoedd a'u cadw'n ddiogel er mwyn cyfeirio ato'n ddiweddarach.
Gofynnodd Tim Stevens i'r awdurdod sicrhau bod rhestr o strydoedd ar gael i'r cyhoedd ar gais. Cadarnhaodd Pete Bland, Swyddog Hawliau Tramwy Cynorthwyol, bod rhestr o strydoedd yn cael ei gadw yn Adeiladau'r Goron a'i fod ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn ôl yr angen.

- **Cau Lonydd Arbennig i atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Papur Ymgynghori.**
  Cyfeiriodd Pete Bland yr aelodau at ddogfen ymgynghori Gorchymyn Cau Lonydd gan y Cynulliad a bod angen ymatebion erbyn 31 Awst 2006. Nododd y byddai'r Awdurdod yn ymateb ei hunan, ond awgrymodd efallai y dymunai'r fforwm gyflwyno ymateb ei hunan. Esboniodd fod cau lonydd yn fwy o broblem drefol ac nid yw'n broblem gyffredin ar lwybrau cefn gwlad. Esboniodd fod y ddeddfwriaeth yn gadael i'r gyfraith gael ei defnyddio ar unrhyw ffyrdd bach, cyn belled nad yw'n briffordd ddosbarthedig neu draffordd, a chadarnhaodd bod y broses gyfan dan reolaeth yr awdurdod lleol ac nad oedd unrhyw ofyn i fynd i'r llys.
  Gofynnodd Margaret Murphy p'un a oedd hyn yn golygu cau lonydd yn llythrennol, trwy roi giât ar bob pen? Esboniodd Pete Bland y byddai'n bosibl gosod giatiau ar lôn gan roi allweddi i'r preswylwyr gael mynediad. Un o'r problemau a nodwyd oedd cynnal a chadw a thrwsio'r giatiau.
  Gofynnodd Tim Stevens a oedd modd rhoi arwyddion ar giatiau awdurdodedig i atal dryswch. Cytunodd Mabyn Pickering. Mewn ymateb, datganodd Pete Bland nad oes unrhyw beth mewn rheoliadau Saesneg yn gofyn i'r briffordd gaeedig gael ei harwyddo. Roedd Sue Gittins yn pryderu a fyddai'r gwasanaethau brys yn gwybod lle i gael allweddi i'r lonydd mewn achosion o dân. Cytunodd Pete Bland y gallai hon fod yn broblem y byddai angen ei hegluro. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr aelodau am ymateb fel fforwm neu fel unigolion.
  Cytunodd yr ysgrifenyddes i goladu ymatebion i'w cyflwyno cyn belled â'u bod yn cael eu derbyn erbyn 31 Awst 2006.

44/06 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- Parcio mewn cilfannau
- Cŵn yng nghefn gwlad

45/06 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Dydd Gwener, 8 Medi 2006 am 1,30pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Dref.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm